

Mathemateg Arian

Mae'r problemau mathemateg hyn i gyd yn ymwneud ag arian. Maen nhw'n mynd yn anoddach wrth i chi fynd yn eich blaen felly gwnewch gymaint ag y gallwch. Pob lwc!

1. Rydych chi'n agor eich blwch arian ac mae gennych chi un darn arian papur £50, dau ddarn arian papur £20, pedwar darn arian papur £10, tri darn arian papur £5, saith darn arian £1, wyth darn 50c a thri darn 2c. Faint sydd gennych chi i gyd gyda'i gilydd?
2. Byddech chi'n hoffi prynu chwaraewr CD newydd ac mae'n costio £60. Mae gennych £25 yn barod ac rydych yn cael £5 yr wythnos fel arian poced. Sawl wythnos bydd hi'n cymryd i chi ei brynu?
3. Pa un o'r rhain yw'r cynnig rhataf?
 - £50 gyda gostyngiad o 20%
 - £40 gyda gostyngiad o 10%
 - £55 gyda gostyngiad o £20
4. Pa un fyddai'r un rhataf? 8 bar o siocled unigol yn costio 43c yr un neu becyn o 8 sy'n costio £3.39?
5. Mae Jo yn cael £5 yr wythnos fel arian poced. Mae hi bob amser yn rhoi £2 ohono yn ei chadw-mi-gei. Pan oedd hi'n 9 oed, rhoddodd £100 ohono yn ei chyfrif cynilo newydd sbon. Mae'r llog ar ei chyfrif yn codi 6% bob blwyddyn ac erbyn hyn mae'n ben-blwydd arni yn 10 oed. Faint o arian fydd yn ei chyfrif cynilo erbyn hyn?
6. Yn yr archfarchnad, rydych chi'n prynu saith moronen am 12c yr un, pum afal am 27c yr un, chwe banana am 15c yr un a dau lemwn am 21c yr un. Faint o newid a gewch o ddarn arian papur £5?
7. Rwy'n cael dwywaith yn fwy am dacluso fy ystafell bob wythnos fel fy mod i'n ennill £1 am yr wythnos gyntaf, £2 am yr ail wythnos, £4 am y drydedd wythnos ac yn y blaen. Faint sydd gen i erbyn y degfed wythnos? Erbyn y pymthegfed wythnos?
8. Y mis nesaf, dw i am brynu anrhegion Nadolig i chwech o fy ffrindiau a dw i am brynu'r un peth i bob un ohonyn nhw. Dw i'n dod o hyd i siop sy'n gwerthu CDs am £8.95. Mae gen i £50 mewn cyfrif cynilo. Faint yn rhagor sydd angen i mi ei gynilo, ei ennill neu ei ddefnyddio o fy arian poced i gael un i bob un ohonyn nhw?